

**CYNGOR DINAS CAERDYDD
GWASANAETHAU PLANT**

**Y GWASANAETH MAETHU
DATGANIAD O DDIBEN
2014**

Cynnwys

Beth yw Datganiad o Ddiben?	T 4
Diben y Gwasanaeth	T 5
Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth Maethu	T 6
Gwerthoedd	T 9
Nodau Gweithredol	T 9
Egwyddorion	T 10
Y Gwasanaethau a Ddarperir	T 11
Darparu Lleoliadau	T 11
Recriwtio Gofalwyr Maeth	T 12
Asesu darpar Ofalwyr Maeth	T 12
Cymeradwyo Gofalwyr Maeth	T 14
Y Panel Maethu	T 14
Gweithdrefnau Adolygu Gofalwyr Maeth	T 14
Cytundeb Gofalwyr Maeth	T 15
Lleoli plant/pobl ifanc	T 15
Disgwyliadau o ran Gofalwyr Maeth	T 16
Cymorth i Ofalwyr Maeth	T 17
Trefniadau ariannol	T 20
Strwythur Rheoli'r Gwasanaeth	T 20
Y Tîm Maethu	T 21
Cwynion a Honiadau	T 21
Trefniadau Eirioli ar gyfer plant/pobl ifanc mewn lleoliad	T 23

Ymchwil a Datblygu	T 23
Datblygu polisiâu a gweithdrefnau	T 24
Prosesau monitro ansawdd	T 24
Cofnodion Gofalwyr Maeth a Phlant Maeth	T 24
Cyfrinachedd a chaniatáu mynediad i Gofnodion	T 25
Gwefan	T 25

Beth yw Datganiad o Ddiben?

Y Datganiad o Ddiben yw'r dull o roi gwybodaeth am Wasanaeth Maethu Cyngor Caerdydd sy'n ofynnol yn unol â Safon 1 – Safonau Gofynnol Cenedlaethol Gwasanaethau Maethu a Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003.

Mae'r Datganiad o Ddiben yn ffynhonnell wybodaeth ar gyfer teuluoedd, gofalywyr maeth, pobl sy'n ystyried bod yn ofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol a chydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant, y Cyngor ac asiantaethau eraill.

Rhoddir 'Canllaw'r Plant' i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maethu. Lluniwyd y 'Canllaw'r Plant' cyfredol gan y plant a'r bobl ifanc ar y cyd â Thros Gynnal Plant.

Mae gan Gyngor Caerdydd Lawlyfr Gofalwyr Maeth hefyd a ddatblygwyd ar gyfer ein Gofalwyr Maeth cymeradwy, sy'n cynnwys rhagor o fanylion am bolisiau a gweithdrefnau'r Cyngor o ran y Gwasanaeth Maethu. Caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd, ac mae copi o'r fersiwn gyfredol ar gael ar ein gwefan.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cynnal arolygiadau rheolaidd o'r Gwasanaeth Maethu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodwyd yn y Datganiad o Ddiben.

Dyma Ddatganiad o Ddiben diweddaraf y Gwasanaeth Maethu. Caiff ei ddiwygio'n flynyddol.

Mae Gwasanaeth Maethu Cyngor Caerdydd yn ymrwymedig i wella gwasanaethau a, gan hynny, oherwydd natur y Gwasanaeth Maethu, rydym yn adolygu ein nodau a'n hamcanion yn flynyddol, ac rydym yn diwygio ein polisiau a'n gweithdrefnau yn barhaus.

Diben y Gwasanaeth

Nod y Gwasanaeth Maethu yw cynnig gwasanaeth o ansawdd da sy'n uchel ei barch ac sy'n rhoi hyder i blant/pobl ifanc, gofalwyr, staff, rheolwyr ac asiantaethau partner.

Ei nod yw cynnig sefydlogrwydd ym mywydau plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth er mwyn rhoi'r cyfleoedd bywyd gorau posibl iddynt.

Drwy roi sefydlogrwydd o'r fath, gall y Gofalwyr Maeth gyfrannu at ddatblygu hunaniaeth y plentyn, sicrhau y caiff ei anghenion addysgol eu diwallu, hybu ei iechyd a'i les a'i gynorthwyo i gyflawni ei botensial.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig amryw leoliadau gyda Gofalwyr Maeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Gyngor Caerdydd. Mae hynny'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaeth fel rhiant corfforaethol.

Nod y Gwasanaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gaerdydd sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli yn y ddinas, neu gerllaw. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod angen lleoliad y tu allan i'r ddinas dan amgylchiadau eithriadol.

Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth Maethu

Mae nodau Gwasanaeth Maethu Cyngor Caerdydd fel a ganlyn:-

- Diwallu anghenion yr holl blant o Gaerdydd y mae angen lleoliad maeth arnynt yn sgîl asesiad;
- Cynnig ystod o ofal teuluol o ansawdd da i blant nad ydynt yn gallu aros gyda'u teuluoedd eu hunain;
- Rhoi profiad teuluol diogel, sefydlog a magwriaethol i blant sy'n derbyn gofal a fydd yn hybu eu hiechyd, eu cyrhaeddiad addysgol a'u lles, ac a fydd yn eu cynorthwyo i ymdopi â'u profiadau bywyd a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial;
- Rhoi gwerth ar amrywiaeth drwy recriwtio a hyfforddi gofalwyr sy'n parchu, yn hybu ac yn adlewyrchu hil, diwylliant a hunaniaeth grefyddol y plant a'r bobl ifanc sydd yn eu gofal;
- Parchu rhywedd a rhywioldeb plant a phobl ifanc;
- Gwrando ar farn plant a phobl ifanc ynghylch eu hanghenion, eu dymuniadau a'u profiadau;
- Cydweithio â'r Gwasanaeth Lleoliadau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli gyda gofalwyr sy'n meddu ar yr ystod o sgiliau a phrofiadau sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion;
- Bod yn llwyr ymroddedig i blant â phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth a lleoliadau a rennir a chanolbwyntio'n llwyr ar eu hanghenion;
- Rhoi cyngor i blant a phobl ifanc sydd mewn lleoliadau gofal maeth a gofal a rennir ar y Weithdrefn Gwyno, a'u cynorthwyo i wneud cwyn os ydynt yn dewis gwneud hynny;
- Galluogi plant a phobl ifanc i gyfrannu at adolygiadau blynyddol eu gofalwyr maeth a'u gofalwyr gofal a rennir, a rhoi gwybod i'r rheolwyr am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am eu gofalwyr.
- Cydweithio â'r gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd gan y gwasanaethau rheoli achosion i sicrhau bod barn y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei chlywed a'i hystyried wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig lle bo Adolygiad o Blentyn sy'n Derbyn Gofal;
- Cydweithio â'r adran Addysg i alluogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal maeth i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd dysgu ac addysgol;

- Cydweithio â'r adran Iechyd i gyflawni'r safonau gofal iechyd ac ymwybyddiaeth iechyd gorau posibl;
- Cydweithio â'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadael Gofal a'r Gwasanaeth Llety â Chymorth i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymorth wrth symud o ofal maeth i fyw'n annibynnol ac yn cael budd o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth;
- Hyfforddi gofalwyr maeth a gofalwyr cymeradwy i safon uchel iawn a galluogi gofalwyr i gymryd rhan mewn ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant (a, lle y bo'n briodol, astudio Diploma Lefel 3 Plant a Phobl Ifanc);
- Blaenoriaeth y Gwasanaeth Maethu yw cynorthwyo gofalwyr maeth i roi'r gofal gorau posibl i blant a phobl ifanc.
- Yn ogystal, sicrhau bod 'gweithiwr ar ddyletswydd' o'r Gwasanaeth Maethu ar gael yn ystod y dydd i roi cymorth i ofalwyr maeth. Bydd Tîm Dyletswydd Argyfwng tu allan i oriau yr adran gofal cymdeithasol yn cynnig cefnogaeth a chymorth ar y penwythnos a phob nos;
- Hybu'r bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Maethu a'r plant a'r bobl ifanc sydd mewn lleoliadau maeth;
- Cydweithio'n agos â'r gwasanaethau eirioli a gofalwyr maeth i gynnwys barn plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar eu gofal a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Maethu;
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau ym maes ymchwil a gweithredu awgrymiadau ar gyfer sicrhau arfer da a gwasanaeth gwell sy'n seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil lleol a chenedlaethol;
- Ceisio darparu gwasanaeth o lefel ac ansawdd sy'n cyflawni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac sy'n cyflawni rhagoriaeth;
- Cyflogi staff tra chymwys sy'n llawn cymhelliant ac sy'n ymrwymedig i recriwtio, hyfforddi, asesu a chynorthwyo gofalwyr maeth a chanolbwyntio'n llwyr a'r anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth;

Cyflawnir ein nodau drwy'r amcanion canlynol:

- Dyrennir Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio Maethu i bob gofalwr maeth (caiff hyn ei fonitro gan Reolwyr y Tîm Maethu yn ystod cyfarfodydd dyrannu rheolaidd);
- Bydd gan ein staff Maethu gymwysterau a chymorth priodol (caiff hyn ei fonitro gan reolwyr wrth recriwtio, yn ystod sesiynau goruchwylio rheolaidd a thrwy gynlluniau Perfformiad a Datblygiad Personol);

- Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ei ymgyrch farchnata lwyddiannus gyda'r nod o recriwtio a chadw digon o ofalwyr maeth medrus a phrofiadol i ddiwallu'r galw presennol a'r galw a ragwelir o ran y boblogaeth sy'n derbyn gofal, er mwyn galluogi sefydlogrwydd lleoliadau a chynnig mwy o ddewis i blant y mae angen lleoliad maethu arnynt (caiff hyn ei fonitro gan y Rheolwyr Maethu gan ddefnyddio'r ystadegau recriwtio misol);
- Bydd y Gwasanaeth yn cynnal proses 'baru' ofalus (a gaiff ei monitro gan y Rheolwr / Uwch Swyddog ar Ddyletswydd) pan geir cais am leoliad er mwyn paru'r plant â'u gofalwyr (o fewn eu categori cymeradwyaeth) ac y tybir bod eu sgiliau a'u galluoedd a aseswyd yn addas er mwyn gallu diwallu anghenion y plant, fel y nodir isod:-
 - Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiadol
 - Iechyd
 - Perthnasau Teuluol a Chymdeithasol
 - Dulliau Cyflwyno Cymdeithasol
 - Sgiliau Hunanofal
 - Addysg a Chyrhaeddiad Addysgol
 - Hunaniaeth

Wrth gynnig lleoliad, yn ogystal â chynnal y broses 'baru' bydd y Gwasanaeth Maethu yn cwblhau ffurflen 'Datganiadau o Ddiddordeb'. Diben y ffurflen Datganiadau o Ddiddordeb yw rhoi gwybodaeth i'r Gweithiwr Cymdeithasol a ddyrannwyd i'r plentyn i esbonio sut y byddai'r gofalwr/gofalwyr arfaethedig yn diwallu anghenion y plentyn (fel y'u nodwyd ar y Cynllun Gofal). Rhoddir copi o broffil Gofalwr Maeth cyfredol y gofalwr arfaethedig i'r Gweithiwr Cymdeithasol a ddyrannwyd i'r plentyn pan gynigir lleoliad.

Bydd y Rheolwyr Maethu yn goruchwylio'r broses hon fel rhan o'u rôl Uwch Swyddog ar Ddyletswydd a byddant hefyd yn monitro'r maes gwaith hwn gan ddefnyddio ystadegau mewn perthynas â cheisiadau am leoliadau, lleoliadau yr amharwyd arnynt a thrwy adborth gan ofalwyr, Gweithwyr Cymdeithasol y plant a gweithwyr proffesiynol eraill.

- Bydd y Gwasanaeth yn cynnal ein hymrwymiad i gyfranogiad drwy ymgynghori â'r Gofalwr Maeth e.e. drwy'r Bwrdd Cynghori Gofalwyr Maeth neu drwy adolygiadau blynyddol neu ymgynghoriadau, a bydd y Gwasanaeth yn parhau i gynnig Grwpiau Cymorth ffurfiol ac anffurfiol; gyda staff e.e. drwy gyfarfodydd staff ac ymgynghoriadau, a chyda phlant a phobl ifanc e.e. drwy ymweliadau gan Weithwyr Cymdeithasol, Adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal, ein dogfennau ymgynghori presennol ar gyfer Adolygiadau Blynyddol gofalwyr a thrwy ddulliau newydd rydym wrthi'n gweithio i'w datblygu ymhellach.

- Bydd y Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y fframwaith a ddiffiniwyd gan Ddeddf Plant (1989); Deddf Plant 2004; Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (2003); Canllawiau Adran Iechyd Llywodraeth y DU 'Promoting the Health of Looked After Children' (2002); Arweiniad ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001), Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus 2008, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau sy'n disodli'r uchod.

Gwerthoedd

Mae diwallu buddion pennaf Plant sy'n Derbyn Gofal mewn lleoliad o bwysigrwydd canolog i holl waith y Gwasanaeth, a chyflawnir hynny drwy broses lle bo pawb sy'n ymwneud â'r achos yn cydweithio mewn partneriaeth.

Mae Gofalwyr Maeth yn adnodd pwysig a gwerthfawr i'r Gwasanaethau Plant. Maent yn bartneriaid clir o ran cyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor i blant a'u teuluoedd. Bydd Gofalwyr Maeth yn cael yr holl wybodaeth, yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen i alluogi'r gwasanaeth i gyflawni ei rwymedigaethau o ran unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal.

Nodau Gweithredol

Fel Awdurdod Lleol, rydym yn gyfrifol am y plant a'r bobl ifanc yng Nghaerdydd sy'n derbyn gofal. Rydym wedi cynnwys cyfeiriadau priodol yma at ein harfer o ran y cyfrifoldebau hynny pan fo hynny'n ymwneud â'r Gwasanaeth Maethu.

Pan fo asesiad o anghenion y plentyn/person ifanc yn nodi mai cyfnod o ofal yw'r ffordd fwyaf priodol o ddiwallu ei anghenion, bydd y Gwasanaethau Plant yn ceisio dod o hyd i leoliad maethu ar ei gyfer. Diben hyn fydd rhoi gofal diogel o ansawdd o fewn teulu a fydd yn cyfrannu at ddychwelyd plant i'w teuluoedd eu hunain lle bo hynny'n briodol.

Bydd y Gwasanaethau Plant yn sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y bydd lleoliadau i ffwrdd o deulu'r plentyn/person ifanc yn para am gyfnod byr, a bydd y gwasanaeth yn cydweithio â theulu genedigol y plentyn i hwyluso'r broses o ddychwelyd y plentyn i'w gofal.

Cynhelir ymweliadau statudol â'r plant a'r bobl ifanc yn y lleoliad, ac Adolygiadau o'r Cynllun Gofal o fewn y terfynau amser a bennwyd gan Ddeddf Plant 1989 a'r Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig. Gwahoddir plant/pobl ifanc a gofalwyr pwysig i gyfrannu.

Bydd gofalwyr pwysig yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch y plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal pan fyddant yn dymuno hynny, ac yn unol â'u buddion pennaf.

Mewn achosion lle penderfynir bod angen gofal hirdymor i ddiwallu buddion pennaf y plentyn/person ifanc, caiff cynllun clir ar gyfer sicrhau sefydlogrwydd lleoliad ei baratoi. Gallai hyn olygu ystyried Gorchmynion Preswyliaid, Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig neu fabwysiadu mewn achosion lle mai hynny yw'r ffordd orau o sicrhau sefydlogrwydd.

Egwyddorion

Bydd diwylliant sefydliadol y Gwasanaeth Maethu yn parchu hunaniaeth ddiwylliannol, ieithyddol, hiliol a chrefyddol unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth mewn unrhyw ffordd.

Bydd hil, diwylliant, tarddiad ethnig, iaith a chrefydd plentyn neu berson ifanc yn rhan annatod o'r broses o'i baru â lleoliad maethu/Gofalwr Maeth.

Mae'r Gwasanaeth yn dilyn polisïau lechyd a Diogelwch y Cyngor er mwyn sicrhau lechyd a Diogelwch pawb.

Rhoddir hyfforddiant priodol i Ofalwyr Maeth er mwyn eu galluogi i gwblhau eu tasg.

Bydd tystiolaeth ar gael ar gyfer penderfyniadau a chynlluniau gwasanaeth, a bydd penderfyniadau a chynlluniau o'r fath yn rhesymegol ac yn dryloyw. Bydd proses seml ar waith er mwyn galluogi unrhyw un sy'n dymuno gwneud hynny i herio penderfyniad, a lle y bo'n gymwys gellir defnyddio proses gwyno'r Awdurdod Lleol.

Y Gwasanaethau a Ddarperir

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn rheoli cyfanswm o **129** o aelwydydd Gofalwyr Maeth cymeradwy ar hyn o bryd, yr ystyrir bod **104** ohonynt yn ofalwyr 'Prif ffrwd', ac mae **25** ohonynt yn Ofalwyr Maeth sy'n Berthynas (sef gofalwyr a gymeradwywyd fel Gofalwyr Maeth gan eu bod yn aelod o'r teulu neu'n gyfaill agos i'r plentyn a'i deulu).

Ceir mathau gwahanol o gymeradwyaeth / gofalwyr maeth o fewn ein gwasanaeth:-

Gofalwyr prif ffrwd

- Gofalwyr Maeth byrdymor a hirdymor – gan gynnwys gofalwyr sy'n arbenigo mewn gofalu am blant anabl (**85**);
- Gofalwyr Seibiant (**9**);
- Gofalwyr Wrth Gefn – yn benodol ar gyfer cynnig gofal seibiant yn lle gofalwr Prif Ffrwd arall (**6**)
- Gofalwyr Remand (**1**);
- Gofalwyr Cynllun yr Arddegau (**1**);
- Gofalwyr y Cynllun Gofal Cymorth (**2**).

Gofalwyr sy'n Berthynas

- Gofalwyr Maeth sy'n Berthynas – Byrdymor a Hirdymor (**23**);
- Gofalwyr Wrth Gefn sy'n Berthynas – yn benodol ar gyfer cynnig gofal seibiant yn lle gofalwr Prif Ffrwd arall (**2**)

Mae ein Gofalwyr maeth Prif Ffrwd a'n Gofalwyr Maeth sy'n Berthynas wedi'u bandio fesul Band 1, 2 neu 3 yn unol ag asesiad sgiliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gan fod y gwasanaeth yn ymfalchïo yn sgiliau a gwybodaeth ein gofalwyr, mae angen iddynt allu dangos tystiolaeth o hyfforddiant a datblygu parhaus i gynnal eu safle bandio (yn unol â'n cynllun Dysgu a Datblygu).

Darparu Lleoliadau

Er yr ymddengys fod y gofalwyr amrywiol sydd gennym yn cynnig cymysgedd rhesymol o sgiliau gofalwyr, mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod prinder lleoliadau o gymharu â'r galw, a gall hyn amharu ar argaeledd a dewis.

Mae'r Gwasanaeth yn dal i fod dan bwysau sylweddol i ddod o hyd i leoliadau brys ar gyfer plant; yn ogystal â'r broses gynlluniedig o leoli plant. Er y cydnabyddir y bydd lleoliadau brys yn digwydd, bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'n timau rheoli achosion er mwyn sicrhau mai dim ond pan fetho popeth arall y defnyddir lleoliadau brys. Fodd bynnag, pan fo'r angen am leoliad 'brys' yn codi, bydd yn gwasanaeth yn ceisio paru'r plentyn neu'r person ifanc â gofalwr priodol cyn gynted â phosibl.

1.CH.010	06/13	2013 Issue 6	Process Owner: OM Strategy, Commissioning & Resources	BIM 03/02/04 Review 01/08 / 06/04&09 Change Request: 22/11/11:21/08/12:04/06/13	Page 11 of 25
----------	-------	-----------------	--	--	---------------

Sefydlwyd Grŵp Llywio Recriwtio yn 2011 gyda'r nod o ddatblygu a gwella ymhellach y prosesau recriwtio a ddefnyddir, ac mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o blith rheolwyr, staff a Gofalwyr Maeth. Un maes lle cafodd y grŵp hwn gryn dipyn o fewnbwn oedd yn y maes o ddatblygu brand newydd ar gyfer y gwasanaeth a chanolbwyntio ar ymgyrchoedd recriwtio. Mae llawer o'n Gofalwyr Maeth yn parhau i gael lefel uchel o ymwneud â'n hymgyrchoedd recriwtio cyfredol, er enghraifft, maent yn ymddangos ar ein posteri a'n deunyddiau hyrwyddo recriwtio, ac maent hefyd yn mynychu digwyddiadau er mwyn rhoi barn uniongyrchol ar y rôl faethu i'n hymgeiswyr.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Maethu yn diweddarau ei Strategaeth Recriwtio'n flynyddol ac yn defnyddio data o'r ymgyrchoedd blaenorol a gwybodaeth ystadegol am Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd i gynorthwyo i gyfarwyddo gwaith yn y maes hwn.

Recriwtio Gofalwyr Maeth

Mae'r gweithgareddau recriwtio yn cynnwys ymgyrchoedd hysbysebu a mynychu digwyddiadau, ffeiriau a gwyliau a gynhelir ar benwythnosau. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i godi proffil Maethu gyda Gwasanaethau Plant Caerdydd yn y gymuned. Rydym yn ddiolchgar am y lefel uchel o gymorth a gawn gan ein gofalwyr presennol yn y digwyddiadau hyn.

Fodd bynnag, mae angen parhaus i recriwtio cryn dipyn yn fwy o ofalwyr newydd er mwyn diwallu'r galw presennol ac yn y dyfodol. Gan hynny, mae'r Gwasanaeth Maethu yn datblygu dulliau gweithredu arloesol o ran recriwtio, ac mae'n ehangu natur ac ystod y gweithgareddau.

Tybir bod y newidiadau hyn yn parhau i alluogi ymholiadau ynghylch maethu gyda Gwasanaethau Plant Caerdydd i gael eu prosesu'n gyflymach.

Yn ystod 2012 datblygwyd 'brand' newydd ar gyfer y Gwasanaeth Maethu, ac fe'i defnyddiwyd am y tro cyntaf mewn ymgyrch recriwtio a lansiwyd ym mis Chwefror 2013. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ddefnyddio'r brand newydd drwy gydol ymgyrchoedd recriwtio 2013 / 2014 a 2014 / 2015.

Mae rhagor o wybodaeth am ein digwyddiadau recriwtio sydd ar ddod ar gael ar ein gwefan.

Asesu darpar Ofalwyr Maeth

Mae'r broses asesu yn dechrau gydag ymweliad cychwynnol â'r cartref, wedi'i ddilyn gan asesiad manwl os yw hynny'n briodol.

O ran ymgeiswyr prif ffrwd, ar hyn o bryd nod y Gwasanaeth Maethu yw sicrhau nad yw'r broses yn para mwy na chwe mis, o dderbyn y ffurflen gais maethu i gyfarfod y Panel.

O ran asesu Gofalwyr Maeth sy'n berthynas, nod y Gwasanaeth Maethu yw sicrhau nad yw'r broses yn para mwy na phedwar mis, o gael yr atgyfeiriad gan y timau rheoli achosion / Llysoedd hyd at gyfarfod y Panel.

Ar unrhyw gam yn ystod y cyfnod asesu, gall yr ymgeisydd a/neu'r Gwasanaethau Maethu benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r asesiad. Fodd bynnag, pe bai hynny'n digwydd bydd y gwasanaeth yn rhoi rhesymau i esbonio'r penderfyniad.

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn glir iawn o'r farn mai ei brif gyfrifoldeb yw canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a chan hynny rhaid sicrhau bod y broses ar gyfer asesu oedolion sydd am ofalu amdanynt yn drylwyr ac o safon uchel. Nid yw'n **hawl** i fod yn ofalwyr maeth.

Defnyddir fformat Asesu Ffurflen F Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF) fel rhan o'r broses drylwyr a chynhwysfawr i asesu p'un a yw ymgeiswyr yn addas. Mae'r Asesiad yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- Gwybodaeth gefndirol
- Perthnasau
- Y Gallu i Rianta
- Ffordd o fyw'r teulu
- Manylion plant yr ymgeiswyr
- Rhwydweithiau Cymorth
- Rhoi Gwerth ar Amrywiaeth
- Ymweliadau gan Ddyfarnwr

Caiff trefniadau iechyd a diogelwch cartref y darpar Ofalwr Maeth eu hasesu, a rhaid iddynt fodloni'r safonau gofynnol a nodwyd yn ngofynion rhestr wirio lechyd a Diogelwch Eiddo/Amgylchedd Gofalwyr Maeth.

Mae'n ofynnol i bob darpar ofalwr ddilyn yr hyfforddiant paratoadol gorfodol "Sgiliau Maethu" (y Rhwydwaith Maethu). Ni ellir cyflwyno ymgeiswyr gerbron y Panel Maethu oni bai eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.

Mae gwerthusiad ysgrifenedig o berfformiad a chyfranogiad yr ymgeisydd yn yr hyfforddiant hwn yn rhan o'r Cais am Gymeradwyaeth. Mae'r broses asesu yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd (ar y cyd â'r Asesydd) roi tystiolaeth o gymwyseddau'r ymgeisydd. Caiff crynodeb o sut y dangoswyd tystiolaeth o gymwyseddau'r Gofalwr Maeth ei gwblhau gan yr Aseswr (gan ddefnyddio Rhan E y Ffurflen BAAF).

Mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal sy'n cael llety dan Reoliad 38, mae'r Gwasanaeth Maethu wedi datblygu prosesau gwell yn ddiweddar mewn perthynas â monitro'r trefniadau hyn ac asesu Gofalwyr Maeth sy'n Berthynas. Y farn yw bod y prosesau Maethu gwell hyn, yn unol â gweithio

mewn partneriaeth agos â'n timau rheoli achosion, yn ein helpu ni i adlewyrchu gofynion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2008.



Cymeradwyo Gofalwyr Maeth

Rhoddir cyfle i ymgeiswyr weld yr ystafell y cynhelir cyfarfod y panel ynnddi a chwrrd â chadeirydd y panel cyn eu cyflwyno gerbron y Panel Maethu.

Gwahoddir yr ymgeiswyr i fod yn bresennol pan fo asesiad o gais i fod yn ofalwr maeth yn cael ei gyflwyno gerbron y Panel Maethu. Bydd y Panel (gweler isod) yn ystyried y cais ac yn gwneud argymhelliad i Wneuthurwr Penderfyniadau'r Asiantaeth o ran p'un a ddylid Cofrestru'r darpar Ofalwyr gyda'r Gwasanaeth, ac os felly, telerau eu Cymeradwyaeth.

Y Panel Maethu

Bydd aelodaeth y Panel yn unol â'r Rheoliadau, a chaiff ei gadeirio gan Gadeirydd Annibynnol profiadol a benodwyd yn 2011.

Mae'r Panel yn ystyried amrywiaeth o faterion:

- Caiff pob ymgeisydd newydd sydd wedi cwblhau asesiad boddhaol ei gyflwyno gerbron y Panel i'w ystyried.
- Yr Adolygiad Blynyddol cyntaf o Ofalwyr Maeth,
- Ceisiadau am newidiadau sylweddol i statws cymeradwyaeth Gofalwyr Maeth,
- Pryderon a godwyd ynghylch Gofalwr Maeth cymeradwy
- Dadgofrestru Gofalwyr e.e. pan fo Gofalwyr yn gadael y gwasanaeth, o ganlyniad i Adolygiad neu ymchwiliad i gŵyn
- Cwynion a gofnodwyd ynghylch Gofalwr Maeth.


Mae'r Panel yn gwneud argymhelliad i Wneuthurwr Penderfyniadau'r Asiantaeth (y Gwasanaeth) ynghylch yr holl faterion a ystyriwyd ganddo.

Gwneir penderfyniadau cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod y Panel, a rhoddir gwybod yn ysgrifenedig amdanynt i ymgeiswyr a Gofalwyr Maeth. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, a rhoddir manylion hyn yn y llythyr.

Gweithdrefnau Adolygu Gofalwyr Maeth

Mae Gweithdrefnau adolygu Gofalwyr Maeth yn cynnwys Adolygiad Blynyddol a gynhelir yn unol â'r Rheoliadau, ac ymweliadau cymorth/goruchwylio rheolaidd. Fodd bynnag, gall y Gwasanaeth gynnal adolygiad o gymeradwyaeth gofalwyr unrhyw bryd.

Cynhelir o leiaf un ymweliad dirybudd â phob Gofalwr bob blwyddyn. Cynhelir ymweliadau rheolaidd â phlant sy'n derbyn gofal, a chaiff eu barn ei holi ar ansawdd eu gofal fel y bo'n briodol. Defnyddir ffurflen ymgynghori i holi barn plant sy'n derbyn gofal fel rhan o'r broses o gynnal Adolygiadau Blynyddol gofalwyr.



Caiff ansawdd y gofal a roddir gan y Gofalwyr Maeth ei fonitro drwy brosesau eraill hefyd, sef gwaith y Gweithiwr Cymdeithasol a ddyrannwyd i'r plentyn, y mae hefyd yn ofynnol i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymweld â'r plentyn yn rheolaidd yn unol â Rheoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal; a thrwy Adolygiadau Statudol o'r plentyn.

Y gofynion statudol ar gyfer plant a gaiff eu lleoli mewn lleoliadau Rheoliad 38 yw y bydd y gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd iddynt yn ymweld â hwy'n wythnosol.

Mae'n ofynnol i Ofalwyr Maeth fynychu hyfforddiant a Grwpiau Cymorth priodol.

Yn ogystal, caiff Gofalwyr Maeth eu gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgorau / grwpiau tasg bychain sy'n ymwneud â datblygu'r gwasanaeth. Mae'r grwpiau hyn yn cynnig cyfleoedd i'r Gofalwyr gyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth yn ogystal â gweithio gyda'r tîm gwaith cymdeithasol. Er bod y rhain yn systemau llai ffurfiol, mae'r gwasanaeth yn cael budd o'r cyfraniad hwn, a gall hefyd ganfod i ba raddau y mae Gofalwyr yn cymryd rhan ynddynt ac yn dangos diddordeb ynddynt. Mae presenoldeb Gofalwyr mewn Grwpiau Cymorth, hyfforddiant ac ati, a'u cyfraniad cyffredinol at eu hunanddatblygiad, bellach yn cael eu monitro'n agosach drwy'r cynllun Dysgu a Datblygu a weithredwyd ym mis Ionawr 2009.

Cytundeb Gofalwyr Maeth

Caiff cytundeb ysgrifenedig ei lunio gyda'r Gofalwr Maeth pan gaiff y gofalwr ei gymeradwyo. Mae'r contract hwn yn nodi disgwyliadau'r Gwasanaeth Maethu o ran Gofalwyr Maeth, a thelerau ac amodau'r bartneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd a'r Gofalwr Maeth.

Caiff y cytundeb ei ddiweddarau pryd bynnag y bo newid o ran telerau cymeradwyaeth y Gofalwr Maeth ac ar ôl cwblhau pob adolygiad blynyddol.

Lleoli plant/pobl ifanc

Pan ofynnir i'r Gwasanaeth leoli plentyn/person ifanc, gwneir ymdrechion i sicrhau bod y darpar Ofalwr Maeth yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau i allu diwallu anghenion y plentyn/person ifanc. Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio Maethu (neu'r Gweithiwr ar Ddyletswydd yn ei absenoldeb) yn trafod y lleoliad posibl gyda'r Gofalwr Maeth.

Lle y bo'n briodol, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo Maethu yn cael rhagor o wybodaeth am y plentyn/person ifanc gan y gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd iddo. Os bydd amser ar gael, cynhelir Cyfarfod Paru gyda'r ddau weithiwr a'r darpar Ofalwr Maeth.

Ar ôl cytuno i wneud y lleoliad gyda'r Gofalwr Maeth, gwneir trefniadau i gyflwyno'r plentyn/person ifanc i'r gofalwr, a chaiff amserlen y broses o symud ei pharatoi.

Ar rai adegau bydd angen trefnu lleoliad ar fyr rybudd. Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo Maethu (neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng) yn gwneud popeth o fewn ei allu i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i'r Gofalwr Maeth am y plentyn a'i anghenion.

Cyn lleoli plentyn gyda Gofalwr Maeth, caiff cytundeb ysgrifenedig (sef y Cytundeb Lleoliad Maethu) ei lunio gydag ef mewn perthynas â'r plentyn sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Gofalwr Maeth i ofalu am y plentyn. Bydd y cytundeb hwn yn cynnwys diben y lleoliad, manylion personol y plentyn megis ei ddiwylliant a'i grefydd, iechyd, diogelwch, addysg ac unrhyw anabledd, trefniadau ariannol i gynorthwyo'r lleoliad, trefniadau ar gyfer rhoi caniatâd i gynnal archwiliadau neu driniaethau meddygol neu ddeintyddol, amgylchiadau o ran gofyn am ganiatâd i'r plentyn gymryd rhan mewn teithiau ysgol neu i aros i ffwrdd o gartref y Gofalwr Maeth.

Bydd hefyd yn cynnwys trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymweld â'r plentyn a chynnal Adolygiadau statudol, a manylion unrhyw gyswllt â rhieni, teulu a ffrindiau'r plentyn.

Darperir rhagor o wybodaeth am roi caniatâd ar gyfer archwiliadau neu driniaethau meddygol neu ddeintyddol, amgylchiadau o ran gofyn am ganiatâd i'r plentyn gymryd rhan mewn teithiau ysgol neu i aros i ffwrdd o gartref y Gofalwr Maeth yn y cytundeb Awdurdod Dirprwyedig.

Mewn unrhyw leoliad ar gyfer plentyn/person ifanc, rhaid i'r trefniadau addysgol fod yn briodol o ran anghenion a gallu addysgol y plentyn. Bydd gan bob plentyn/person ifanc sydd mewn lleoliad Gynllun Addysg Personol sy'n gysylltiedig â'i Gynllun Gofal, a Chynllun Addysg Unigol lle y bo angen (Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig)

Disgwyliadau o ran Gofalwyr Maeth

Bydd y broses asesu yn ystyried y disgwyliadau o ran darpar Ofalwyr Maeth gyda'r gofalwyr cyn lleoli plentyn ac ar ôl hynny.


Mae hyn yn cynnwys:-

Iechyd/addysg

- Cyfrifoldeb am ddiogelwch unrhyw blentyn dan eu gofal o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni fydd y Gwasanaeth yn datblygu diwylliant

o “osgoi risg”; yn hytrach bydd yn cynorthwyo'r Gofalwr i addysgu rheoli risg ar lefel sy'n briodol i oedran a lefel ddealltwriaeth y plentyn.

- Cyfrifoldeb am iechyd pob plentyn a pherson ifanc a roddir dan eu gofal; caiff hyn ei fonitro o ddydd i ddydd gan y Gofalwr, a hefyd yn flynyddol yn unol â'r rheoliadau statudol.
- Sicrhau bod plant o oedran ysgol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd



Cyswllt â rhieni/teulu a ffrindiau

Un o rolau allweddol y Gofalwr Maeth yw hybu a hwyluso cyswllt rhwng y plentyn/person ifanc a'i rhieni, perthnasau a ffrindiau. Gall hyn fod yn amodol ar y Cytundeb Lleoliad Maethu, y Cytundeb Awdurdod Dirprwyedig ac unrhyw Orchymyn Llys sy'n ymwneud â chyswllt o'r fath.

Caiff trefniadau cyswllt eu sefydlu a'u cynorthwyo yn unol â Pholisïau'r Gwasanaethau Plant a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag arfer gwrthwahanïaethol a chyfle cyfartal.

Caiff trefniadau cyswllt eu nodi yn y Cynllun Lleoli, os yn bosibl cyn derbyn y plentyn i ofal y Cyngor, ac yna eu hadolygu fel y bo'n briodol ac ym mhob Adolygiad Statudol o Gynllun y plentyn. Caiff y trefniadau hyn eu sefydlu ar ôl ymgynghori ag unigolion pwysig, y teulu neu grŵp. Caiff y wybodaeth a'r rhesymau dros bennu trefniadau cyswllt o'r fath eu rhannu gyda'r rheini sy'n ymwneud â'r achos lle y bo'n briodol. Bydd y Gofalwr Maeth yn sicrhau bod y cyswllt yn digwydd yn unol â'r trefniadau hyn.

Dylai cyswllt yng Nghartref y Gofalwr Maeth fod yn gynlluniedig ac yn strwythuredig er mwyn caniatáu ar gyfer anghenion pobl eraill yn y cartref. Mewn achosion lle nad yw'r cyswllt yn gallu digwydd yng Nghartref y Gofalwr Maeth, gwneir trefniadau amgen. Mewn achosion lle gall pellter neu amser fod yn drafferthus o ran cynorthwyo cyswllt, dylid ystyried cyswllt dros y ffôn, drwy lythyr neu e-bost.

Sgiliau/gwybodaeth Gofalwyr Maeth

Bydd Gofalwyr Maeth, ar y cyd â'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio Maethu a rheolwyr, yn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn briodol ar gyfer eu gwaith, a byddant yn fodlon dilyn hyfforddiant a hyfforddiant gloywi. Bydd y Gwasanaethau Plant yn rhoi'r cymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i wneud hynny.

Caiff hyfforddiant a datblygiad pob gofalwr eu hadolygu'n barhaus yn unol â gofynion Cynllun Dysgu a Datblygu'r Gwasanaethau (caiff hyn ei adolygu'n flynyddol hefyd fel rhan o'r adolygiad blynyddol o gymeradwyaeth y gofalwr).

Cymorth i Ofalwyr Maeth

1.CH.010	06/13	2013 Issue 6	Process Owner: OM Strategy, Commissioning & Resources	BIM 03/02/04 Review 01/08 / 06/04&09 Change Request: 22/11/11:21/08/12:04/06/13	Page 17 of 25
----------	-------	-----------------	--	--	---------------

Er mwyn galluogi Gofalwyr Maeth i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i blant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, mae'r Gwasanaeth o'r farn y dylent gael cymorth gan y Gwasanaeth i'w galluogi i wneud hynny. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw maethu'n waith hawdd bob tro, ac mae hefyd yn cydnabod yr effaith y gall hynny ei chael ar deulu'r Gofalwr.

Cardiff Cares
Foster a child



Anghenion o ran datblygiad iechyd/emosiynol

Drwy'r gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd i'r plentyn, cael gafael ar gymorth arbenigol, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, er mwyn rhoi cymorth o ran anawsterau ymddygiadol ac emosiynol.

Mae Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnig cymorth arbenigol i Ofalwyr Maeth ac maent yn cynnal Aseidiadau Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal.

Bydd cymorth ar gael i Ofalwyr Maeth sy'n arbenigo mewn gofalu am blant anabl, a/neu blant mewn grwpiau oedran penodol drwy dimau arbenigol e.e. y Gwasanaeth Ymyriadau a Chymorth Teuluol, timau Gofal Plant, y Tîm Iechyd Plant ac Anabledau, CAMHS a staff yr Uned Breswyl.

Addysg

Caiff Gofalwyr Maeth eu galluogi i ddarparu llyfrau addysgol, gwybodaeth a chyfarpar technoleg gwybodaeth priodol.

Gwneir trefniadau, lle bynnag y bo'n bosibl, ar gyfer addysg llawn amser plant mewn achosion lle nad oes lle ysgol ar gael iddynt.


Bydd y Gwasanaeth yn galluogi'r Gofalwyr Maeth i hybu cymryd rhan mewn gweithgareddau o ansawdd y tu allan i'r ysgol a/neu weithgareddau hamdden, a bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod hynny'n digwydd.

Mae Project Mentora Ieuenctid yn cynnig cymorth Addysgol ychwanegol i bobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn achosion lle nodir bod angen hynny, ac mae'n rhoi cymorth anuniongyrchol i Ofalwyr Maeth Caerdydd drwy wneud hynny.

Ar hyn o bryd, yr Adolygiadau Statudol rheolaidd ac ymweliadau â'r plentyn yw'r gweithdrefnau a ddefnyddir i fonitro cyrhaeddiad addysgol, cynnydd addysgol a phresenoldeb ysgol plant sydd wedi'u lleoli â Gofalwyr Maeth. Mae'r gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd i'r plentyn yn gyfrifol am gydlynu Cynlluniau Addysg Personol mewn partneriaeth ag ysgolion a phobl eraill sydd â diddordeb. Caiff y Cynlluniau Addysg Personol hyn eu hadolygu yng nghyfarfod Adolygiad Statudol ac Addysgol y plentyn. Caiff y gofalwr maeth ei wahodd i'r cyfarfod ac i gyfrannu ato. Anfonir y Cynllun Addysg Personol a adolygwyd at y Gofalwyr Maeth ar ôl y cyfarfod adolygu.

Mae'r tîm Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnal cyfarfodydd bob hanner tymor gyda Chynrychiolwyr y Gwasanaethau Plant i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd.

Rhoddir gwybodaeth a chymorth i Ofalwyr Maeth, gan gynnwys cyfarpar fel y bo angen, i ddiwallu anghenion addysgol y plant sydd wedi'u lleoli gyda nhw. Rhoddir cyfrifiadur a mynediad band eang i Ofalwyr Maeth ar gyfer eu plant maeth.



Bydd y Gwasanaeth Maethu yn monitro, lle bo hynny'n bosibl, fod unrhyw addysg a roddir i blentyn maeth nad yw'n mynychu'r ysgol, ond sydd o oedran ysgol gorfodol, yn effeithlon ac yn addas ar gyfer oedran, gallu a doniau'r plentyn, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo/ganddi.

Symud i fyw'n annibynnol

Pan fo person ifanc sy'n derbyn Gofal Maeth wedi cyrraedd yr oedran lle nad yw'n ofynnol iddo ef neu hi dderbyn addysg llawn amser orfodol mwyach, bydd y Gwasanaeth Maethu'n cydweithio â rheolwyr a staff y Gwasanaeth Gadael Gofal a Gwasanaethau Cysylltiedig i gynllunio trefniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y person ifanc.

Bydd y Gwasanaeth Maethu yn sicrhau bod Gofalwyr Maeth yn meddu ar yr hyfforddiant, y wybodaeth a'r deunyddiau angenrheidiol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses o symud i fyw'n annibynnol.

Plant anabl

Bydd Gofalwyr Maeth plant sydd ag anabledau corfforol yn cael cymorth drwy gymhorthion a chyfarpar addasu i ddiwallu anghenion y plentyn.

Hyfforddiant/Cymorth i Ofalwyr Maeth


Bydd gan bob Gofalwr Maeth Weithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo Maethu sy'n cwrdd ag ef yn rheolaidd, ac yn ei gynorthwyo i nodi anghenion hyfforddiant a chymorth. Bydd y cynllun Dysgu a Datblygu a nodwyd uchod a weithredwyd yn 2009 o gymorth o ran monitro'r cyfleoedd hyfforddiant/datblygu a gymerwyd gan ofalwyr.

Gall Gofalwyr Maeth gael cyfleoedd datblygu proffesiynol drwy gwblhau Diplomau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Gwasanaethau Plant yn annog gofalwyr i astudio'r cyrsiau hyn i wella'u harfer a'u statws gofalwyr. Mae'r Gwasanaeth Maethu yn cysylltu'n rheolaidd â'r Swyddogion Hyfforddiant i adolygu, cynllunio a datblygu'r rhaglen Hyfforddiant Gofalwyr Maeth.

Mae nifer o Grwpiau Cymorth gwahanol ar gael i bob Gofalwr Maeth, ar sail lleoliad, diddordebau cyffredin ac arbenigedd gofalu penodol, gan gynnwys mynediad at y Rhwydwaith Maethu.

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn cynnig rhaglen o sesiynau 'Dysgu dros Ginio' mewn ymateb i geisiadau gan ofalwyr am sesiynau hyfforddiant byrrach a phynciau penodol a nodwyd.

Sefydlwyd y Bwrdd Cyngori Gofalwyr Maeth i hwyluso cydweithio rhwng Gofalwyr Maeth, Aelodau Etholedig a Staff y Tîm Maethu o ran cynllunio a datblygu'r Gwasanaeth Maethu yng Nghaerdydd. Dyma'r bwrdd cyntaf o'i fath yng Nghymru.



Trefniadau ariannol

Telir Lwfansau Gofalwyr Maeth ar gyfraddau cenedlaethol a argymhellir gan y Rhwydwaith Maethu i ofalwyr yn unol ag oedran y plentyn. Yn ogystal, telir taliadau ychwanegol i Ofalwyr sy'n cyflawni meini prawf y safonau Bandio. Mae'r taliadau ychwanegol yn ymwneud â Gofalwyr Band 2 a Band 3.

Caiff y lwfansau eu hadolygu a'u cyhoeddi'n flynyddol. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

Telir y lwfansau ychwanegol canlynol:-

- Lwfans Pen-blwydd;
- Lwfans y Nadolig neu Wyl;
- Lwfans Dillad Cychwynnol (yn seiliedig ar angen),
- Telir ffioedd cadw i bob gofalwr sydd ar gael i dderbyn plentyn ar leoliad am hyd at 6 wythnos,
- Telir costau trafniadaeth fesul milltir ar gyfer unrhyw daith berthnasol, ac ar gyfer tacsis dan amgylchiadau penodol y cytunwyd arnynt.
- Telir cyfradd sefydlog fesul awr am drefniadau gofal dydd lle bo angen a lle cytunir ar hynny.

Strwythur Rheoli'r Gwasanaeth Maethu

Rheolwr Gweithredol Adnoddau, Angela Bourge, sy'n bennaf gyfrifol am y Gwasanaeth Maethu, ac mae hi'n rhan o Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Plant, sy'n atebol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant, Anthony Young.

Angela Bourge sy'n cyflawni rôl Gwneuthurwr Penderfyniadau'r Asiantaeth ar gyfer Panel Maethu Caerdydd.

Rheolwr Cofrestredig y Gwasanaeth Maethu yw Rheolwr y Tîm Maethu Gary Fear, a thybir ei fod yn addas ar gyfer y rôl hon oherwydd ei brofiad sylweddol o weithio yn y Gwasanaeth Plant (ers 22 mlynedd) a thybir ei fod yn meddu ar gymwysterau addas ar gyfer y rôl hon (mae ganddo Ddiploma Gwaith Cymdeithasol ac NVQ Rheoli Lefel 4 gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth).

Y Tîm Maethu

Mae strwythur cyfredol tîm y Gwasanaeth Maethu fel a ganlyn:-

Rheolwr Gweithredol (RhG1) - Adnoddau

2 Reolwr llawn amser y Tîm Maethu
2 Reolwr rhan amser y Tîm Maethu

2 Brif Weithiwr Cymdeithasol Maethu llawn amser

5 Uwch Weithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio
Maethu rhan amser a 2 llawn amser

4 Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio
Maethu llawn amser a 2 rhan amser

1 Swyddog recriwtio a Chadw Rhieni Maeth rhan amser

3 Swyddog Cymorth maethu llawn amser

Mae'r Tîm Maethu yn cyflawni amryw o dasgau gan gynnwys cadw ac asesu; goruchwylio a chynorthwyo Gofalwyr Maeth. Ceir nifer o fentrau i gynorthwyo Gofalwyr e.e. gweithiwr dynodedig ar gyfer plant maeth, grŵp cymorth ar gyfer plant maeth, a chynllun 'Mentor' i baru gofalwyr sydd newydd eu cymeradwyo â gofalwyr profiadol er mwyn cael cyngor a chymorth ganddynt.

Mae holl Weithwyr Cymdeithasol y Tîm yn meddu ar gymhwyster perthnasol. Ceir cymysgedd cytbwys o Uwch Weithwyr Cymdeithasol, Gweithwyr Cymdeithasol profiadol allweddol a Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Mae gan y tîm 3 Swyddog Cymorth Maethu hefyd i gynorthwyo â darparu gwasanaethau.

Rhoddir cymorth busnes i'r gwasanaeth gan y Gwasanaethau Plant, a darperir rhaglen hyfforddiant gan Dîm Hyfforddiant a Datblygu'r Adran Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Cwynion a Honiadau

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod barn Gofalwyr Maeth yn bwysig, ac mae nifer o systemau ar waith er mwyn galluogi Gofalwyr i fynegi eu barn e.e. i'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio Maethu, mewn Grwpiau Cymorth ac i'r Bwrdd Cyngori Gofalwyr Maeth, a sefydlwyd i hwyluso cydweithio

rhwng Gofalwyr Maeth, Aelodau Etholedig a Staff y Tîm Maethu Fostan
cynllunio a datblygu'r

Gwasanaeth Maethu yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, gan fod y Gwasanaeth wedi canfod mai prin yw'r Gofalwyr Maeth sy'n defnyddio'r Bwrdd Cyngori i fynegi eu barn, lluniwyd contract gyda'r Rhwydwaith Maethu i gynnal cyfres o ymgynghoriadau yn ystod 2014/15 i ystyried sut y gall y Gwasanaeth wella'i ddulliau ymgynghori ymhellach.

Pan fo gan y Gofalwr Maeth broblem mewn perthynas â gweithrediad y Cytundeb Maethu e.e. o ran y telerau cymeradwyo, dylai drafod hyn gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio Maethu yn y lle cyntaf. Gall fod yn briodol i ystyried adolygu'r statws cymeradwyaeth yn unol ag Adran 3 y Cytundeb.

Rhoddir taflen wybodaeth am Weithdrefn Gwyno'r Cyngor i Blant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc mewn Gofal Maeth a Gofalwyr Maeth. Mae'r Gwasanaethau Plant hefyd yn rhoi gwybodaeth am rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Anogir Gofalwyr Maeth i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt yn anffurfiol. Disgwylir yr eir i'r afael â'r pryderon mewn ysbryd o ewyllys da a pharch rhwng y Gofalwr Maeth a'r Gwasanaeth Maethu a/neu staff yr Ardal.

Ar adegau lle nad yw hynny'n arwain at ddatrys y mater yn foddhaol, gallai'r plant/pobl ifanc a/neu eu Gofalwyr Maeth ystyried defnyddio'r weithdrefn gwyno ffurfiol. Gall y Gofalwr Maeth hefyd gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru:-

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Charter Court
Ffordd Phoenix
Llansamlet
Abertawe SA7 9FS Ffôn: 01792 765600

Yn ogystal â hyn, gall unrhyw un sydd â phryderon nad yw'r Gwasanaeth yn cyflawni'r gofynion statudol gysylltu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:-

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
AGGCC – Rhanbarth y De-Ddwyrain
Adeiladau'r Llywodraeth
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ Ffôn: 0300 0628757 / Ffacs: 0300 0628548

E-bost: cssiw_cardiff_region@wales.gsi.gov.uk
www.aggcc.cymru.gov.uk

Pan fo'r mater yn ymwneud â phlentyn mewn lleoliad, dylid cyflwyno'r gŵyn dan Weithdrefn y Ddeddf Plant. Mae Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Plant yn gyfrifol am reoli proses y weithdrefn gwyno yn unol ag Adran 29 Deddf Plant 1989 a Gorchymyn Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn Gwyno) 1990.

Pan fo'r gŵyn mewn perthynas â materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn, dylid defnyddio proses Gwyno Gorfforaethol y Cyngor. Mae'r broses hon yn cydymffurfio â Gorchymyn Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn Gwyno) 1990.

Mae'r Gwasanaethau Plant yn ymchwilio i unrhyw honiadau o gam-drin plant a wneir yn erbyn Gofalwr yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Pan fo gan blentyn/person ifanc gŵyn am agwedd ar fywyd yng Nghartref y Gofalwr Maeth, caiff hon ei thrafod gyda'r gweithiwr achos a ddyrannwyd iddo yn y lle cyntaf. Ar ôl hynny gellir trafod y mater gyda'r Gofalwr Maeth a'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio Maethu. Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS Cymru) yn cynnig Gwasanaeth Eiriolaeth annibynnol i bobl ifanc sy'n derbyn gofal, a bydd yn ymwneud ag unrhyw drafodaethau ynghylch y person ifanc dan sylw fel y bo'n briodol. Am ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol ewch i'r wefan:-

<https://www.nyas.net/>

Os na ellir datrys y gŵyn, caiff ei chyfeirio at Swyddog Cwynion dynodedig y Gwasanaethau Plant.

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn cadw cofnod canolog o'r cwynion a wneir, gan gynnwys natur y cwynion a'r canlyniadau. Bydd y Rheolwyr Tîm yn monitro canlyniadau cwynion, a bydd y gwasanaeth yn dadansoddi cwynion a'u canlyniadau er mwyn nodi unrhyw welliannau angenrheidiol. Bydd y Gwasanaeth Maethu yn cadw copi o'r gŵyn a'r canlyniad ar ffeil y Gofalwr Maeth. Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Panel Maethu ar nifer y cwynion a'r math o gwynion a gafwyd.

Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc mewn Lleoliad

Cynigir eiriolaeth i blant fel y bo'n briodol i'w hanghenion a'u hoedran. Fel y nodwyd uchod, mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol yn cynnig gwasanaeth i Blant sy'n Derbyngofal, ac yn ogystal, datblygwyd Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael unrhyw gyswllt â'u perthnasau.

Ymchwil a Datblygu



Er mwyn annog Gwasanaeth sy'n ymrwymedig i welliant parhaus, bydd y Gwasanaeth Maethu yn cyfrannu at ddatblygiad ymchwil ac arfer o fewn ei faes arbenigol ei hun. Cyflawnir hyn drwy gymryd rhan mewn

projectau ymchwil a'u comisiynu lle y bo'n briodol, yn ogystal â defnyddio gwaith ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a wnaed mewn Gwasanaethau Maethu eraill, y nodwyd eu bod yn cynnig modelau o arfer da yn y maes hwn.

Datblygu Polisiâu a Gweithdrefnau

Datblygwyd polisiâu a gweithdrefnau mewn perthynas â'r Gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, Rheoliadau a Chanllawiau. Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau hyn hefyd yn cael eu llywio gan waith ymchwil ac arfer gorau. Caiff meysydd polisi eu hadolygu a'u datblygu'n barhaus i ystyried anghenion newidiol plant, pobl ifanc, gofalwyr a'r Gwasanaeth Maethu.

Prosesau Monitro Ansawdd

Caiff ansawdd y Gwasanaeth Maethu ei fonitro mewn sawl ffordd:

- Gweithgareddau goruchwyllo rheolaidd y gweithwyr a'r rheolwyr
- Barn neu sylwadau a fynegwyd drwy Adolygiadau statudol o blant mewn lleoliadau
- Gwaith y Panel Maethu
- Monitro achosion o amharu ar leoliadau, canmoliaeth a chwynion
- Monitro pa mor aml y caiff staff eu goruchwyllo a Chynlluniau Perfformiad a Datblygiad Personol;
- Adroddiadau ar Archwiliadau a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Materion a godwyd gan ofalwyr drwy eu Grwpiau Cymorth neu eu cynrychiolwyr ar y Bwrdd Cynghori Gofalwyr
- Mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno adroddiadau chwarterol ar Atebolrwydd sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau
- Mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar Ansawdd Gofal (gellir cael copi ohono drwy wneud cais i'r gwasanaeth)

Cofnodion Gofalwyr Maeth a Phlant Maeth

Mae Gwasanaeth Maethu Caerdydd yn cadw manylion pob Gofalwr Maeth cymeradwy. Caiff y cofnodion hyn eu cadw am o leiaf 10 mlynedd ar ôl terfynu'r gymeradwyaeth.

Mae Gwasanaeth Maethu Caerdydd yn cadw manylion pob person sy'n rhoi lleoliad i blentyn yn unol â Rheoliad 31 Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003. Caiff y cofnodion hyn eu cadw am o leiaf 10 mlynedd ar ôl dyddiad terfynu'r lleoliad.

Mae Gwasanaeth Maethu Caerdydd yn cadw manylion pob plentyn a gaiff ei leoli gyda Gofalwyr Maeth yn unol ag Atodlen 2 (1) Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003.

Cyfrinachedd a Chaniatáu Mynediad i Gofnodion

Mae gan y Cyngor bolisiâu clir o ran cadw cofnodion, cyfrinachedd a chaniatáu mynediad i gofnodion, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac sy'n galluogi Gofalwyr Maeth a'r plant a'r bobl ifanc sydd mewn lleoliad i gael gweld y wybodaeth a gofnodwyd amdanynt.

Mae'n ofynnol i Ofalwyr Maeth, Staff ac Aelodau'r Panel gadw'r holl wybodaeth sydd ganddynt am y plant/pobl ifanc sydd mewn lleoliad yn gyfrinachol, a rhaid storio unrhyw waith papur yn ddiogel. Mae'r gwasanaethau yn darparu cypyrddau cloi at y diben hwn.

Gwefan

Rydym yn gobeithio y bu ein Datganiad o Ddiben yn ddefnyddiol i chi. Fodd bynnag, os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein Gwasanaeth Maethu, rydym yn argymhell i chi fynd i'n gwefan:-

www.caerdydd.gov.uk/maethu